# Tafod Elái

NADOLIG 1992 Pris 25c RHIF 73




Leanne Hardman yn derbyn y tlws am berfformiad unigol orau'r Ŵyl ddrama oddi wrth Elisabeth Miles.

## YR WYL DDRAMA

Roedd y safon yn aruthrol o uchel yng Ngŵyl Ddrama Tafod Elái eleni yn ôl y beirniad, Elisabeth Miles. Cafwyd 13 o gynhyrchiadau dros pedair noson yr Ŵyl yn amrywio o bantomeim i Noson Lawen i ffars a chomedi ac i'r difrifol. Roedd Neuadd Dowlais yn fwrlwm wrth i'r cannoedd a fu'n cymeryd rhan a'r cannoedd oedd yn y gynulleidfa gyd-rannu o'r wledd o adloniant.

Dyfarnwyd y Tlws am y cynhyrchiad oedd wedi plesio'r beirniad orau i Bantomeim Ysgol Gyfun Llanhari. Rhoddwyd y tlws am berfformiad unigol orau'r Ŵyl i Leanne ardman am ei phortread o Rhian yn y ddrama "Tair Mewn Twll" gan Gwmni '93. Yn ôl y beirniad mae gan Leanne botensial rhyfeddol a chafwyd boddhad arbennig o'i perfformiad. Er mai cwmni oedolion yw Cwmni '93 mae Leanne yn ddisgybl chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Rhydfelen.

## Y NADOLIG

Coeden Nadolig gyda'i haddurniadau hardd a golau pob lliw yn wincian arnoch chi. Twrci ar y bwrdd, mins peis yn y gegin. Addurniadau ym mhob man. "Beth fydd Siôn Corn yn dod i fi yfory mam?". Dyna beth rydyn ni yn galw Nadolig.

Beth am y bobl ar y strydoedd? Fyddan nhw ddim yn cael coeden Nadolig gyda'i haddurniadau hardd neu hosan fach ddel yn barod i Siôn Corn neu dwrci neu mins peis a byddan nhw yn lwcus i gael anrheg o gwbl. Yr unig anrheg mae nhw moen yw tŷ â rhywun i edrych ar eu hôl.

## nadolig llawen

Pam ydyn ni yn cael Nadolig? Rydyn ni yn cael Nadolig achos roedd Iesu yn cael ei eni. Ydych chi wedi meddwl am hyn ar ddydd Nadolig? Triwch gofio pam rydyn yn dathlu'r Nadolig.

Claire Shepherd
Ysgol Gynradd Llantrisant

### 1993
### CALENDR ARBENNIG TAFOD ELÁI
### Am ddim
### Tu mewn



*Nadolig Llawen*

a

Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth criw

**Tafod Elái**

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y laf o Chwefror
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
17 Ionawr 1993


Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF4 8TG
Ffôn: 0222 890040



Cyhoeddir **Tafod Elái** gan
y Bwrdd Golygyddol
gyda chefnogaeth ariannol
Cymdeithas Celfyddydau
De-Ddwyrain Cymru a'r
Swyddfa Gymreig.
Argraffwyd gan
Gwmni Three Arch Press.


# MENTER TAF ELÁI

Erbyn hyn mae nifer o is-bwyllgorau Menter Taf Elái yn ystyried hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Bu'r Pwyllgor Ieuenctid ac Adloniant yn trafod cynnal gweithgareddau yng Nghanolfannau Hamdden yr ardal.

Mae'r Pwyllgor Cydlynu Cymraeg i'r Oedolion am ehangu'r rhwydwaith o gyrsiau, cynnal Sadwrn Siarad, ac am sefydlu dau Wlpan yn yr ardal.

Mae Pwyllgor Delwedd y Gymraeg yn trefnu i ddanfon holiadur i holl ddiwydiannau'r ardal a threfnu i gwrdd a Chyngor Taf Elái a'r Bwrdd Iaith.

CYDLYNU CYMRAEG I OEDOLION

**NOSON CANU CAROLAU**

6.45 p.m. Tesco
Glanbad (Upper Boat)
Nos Lun, 14 Rhagfyr
yna
Parti yng Nglwb y Bont

GWEITHGOR DRAMA

Noson Caws a Gwin

7.30 p.m. Nos Fercher,
27 Ionawr 1993
Clwb y Bont
i drafod manylion ffurfio
Cwmni Drama i oedolion.
Manylion pellach
Branwen Cennard:
0443 777347

CWMNI DRAMA IEUENCTID

7 pm Nos Fawrth
5 Ionawr 1993
yn Ysgol Llantrisant
Croeso i bobl ifanc dros
13 oed.
Cysylltydd:
Danny Grehan
0443 671577

# DIGWYDDIADUR

Bore Sadwrn, 5 Rhagfyr
Arwerthiant Pen-bwrdd Cymdeithas Gymraeg Llantrisant yn Tŷ Model

Nos Fercher, 9 Rhagfyr
Hwyl yr Ŵyl, Merched y Wawr, yn Hendre, Pantbach, Pentyrch

Nos Sadwrn, 12 Rhagfyr
Steve Eaves a'i Fand yng Nghlwb y Bont

Dydd Sul, 13 Rhagfyr
Gwasanaethau Nadolig Ysgol Pont Siôn Norton yng Nghapel Sardis, Pontypridd am 10.30 a 6.00 o'r gloch.

Nos Lun, 14 Rhagfyr
Noson Canu Carolau. 6.45 p.m. tu fas i Tesco, Gellihirion

Nos Sadwrn, 19 Rhagfyr
MESEIA Handel. Côr Godre'r Garth ac Unawdwyr. 7.00 p.m. Capel Bethania, Tonypandy.

Dydd Sul, 20 Rhagfyr
Drama'r Nadolig ar Fferm Whiton Rosser, Llancarfan gan aelodau Teidiau Twm am 4.30 y prynhawn.

Nos Fawrth, 22 Rhagfyr
Parti Nadolig Clwb y Dwrlyn
Plant: 5.00 yn Neuadd y Pentref
7.00 Canu Carolau

1993
Nos Fawrth, 5 Ionawr
Cwmni Drama Ieuenctid am 7.00 yn Ysgol Llantrisant.

Nos Lun, Ionawr 11, Dosbarthiadau Dysgu Cymraeg am 7 o'r gloch yn Ysgol Pentyrch.

Dydd Sul, 24 Ionawr
Clwb Cerdded am 2.00 p.m. o faes parcio Heol y Sarn, Llantrisant.

Nos Fercher, 27 Ionawr
Noson Caws a Gwin Gweithgor Drama, Menter Taf Elái. 7.30 p.m. yng Nghlwb y Bont.

Nos Sadwrn, 30 Ionawr
Twmpath Dawns Santes Dwynwen gyda Dawnswyr Nantgarw yn Neuadd y Pentref, Pentyrch.

Mae cronfa'r apêl am argraffydd laser newydd i Tafod Elái yn cynyddu o hyd. Dyma'ch cyfle olaf i helpu. Danfonwch eich cyfraniadau i:
Cronfa Argraffydd Tafod Elái,
18 Springfield Garden,
Pentrepoeth, Radur,
Caerdydd. CF4 8LQ

# CYSTADLEUAETH IOLO MORGANWG

Beirniaid: Rhys Dafis ac Ynyr Williams

Eto eleni, bu'r gwasanaeth post yn gwegian, a'r gliced lythyron yn cleclan yn brysur wrth i'r cerddi gyrraedd. 307 wedi cystadlu - record! Diolch i'r drefn fod dau ohonom i feirniadu y tro hwn.

Ar ôl pwyso a mesur, rydan ni'n gytun fod y safon eleni wedi codi rhyw gymaint, ac mae hynny'n rhoi boddhad mawr. Ein hunig siom yw fod nifer a safon cerddi y cystadleuwyr hŷn wedi gostwng, ar y cyfan. Ai disgyblion sy'n astudio Cymraeg Lefel A yn unig a gafodd gyfle i gystadlu gennych athrawon? Os hynny, Yna rydym ar ein colled.

Hoffem ddiolch yn fawr i bob un wan jac ohonoch a aeth i'r trafferth i lunio cerdd i'w hanfon atom. Diolch hefyd i'ch athrawon am eu cefnogaeth ar waetha pob ymyrraeth gwricwlaidd.

**Blwyddyn 8 a 9: "Bwganod".**

Fe'n dychrynwyd gan 169 o fwganod! Profiad erchyll oedd troi at y cerddi bob yn un heb wybod sut ddrychiolaeth fyddai'n ein wynebu. Gwelsom wrachod ac ysbrydion, rhai blewog a rhai oer, ac un gwyrdd hefo llysnafedd melyn ar ei wefiau. Sleifiodd Dracula allan o un amlen ac, er inni ei hoelio â stanc ein sylw, atgyfododd rhywsut i'n brawychu o'r amlen nesaf Buom yn troedio sawl mynwent a chrwydro yn nyfnderoedd selerydd hen blasdai a chestyll. Teimlem fel Scooby Doo yn hytrach na'r Ghostbusters, mae'n rhaid cyfaddef. Os ydach chi'n berson ofnus, gwell ichi neidio i'r gystadleuaeth nesa. I'r gweddill dewr, dyma rannu'r eiliadau mwyaf arswydus:

"..gwrachod yn dawnsio o gwmpas eu crochan,
a sgerbydau'n ysgwyd eu hesgyrn yn wyllt;
bleiddiast denau â'i dannedd coch yn sugno
gwddw'r tywyllwch..."
(Carly Pegg, Llanhari)

"Mae'n fawr,
Mae'n gawr,
Mae'n cerdded ar draws y llawr -
A R G G H H H !
Nath e gael fi!"
(Ceri Davies, Rhydfelen)

"Mae fy nghalon yn curo, curo
Fel drwm mewn cerddorfa,
A'r ysbrydion o gwmpas fi
Fel plant o gwmpas losin.."
(Suzanne Knox, Rhydfelen)

"Tylluan yn hwtian nerth ei phen,
Gwynt yn chwythu hen liain wen.."
(Rhiannydd Dutfield, Y Cymer)

"Cysgod mawr du
Fel cwmwl glaw,
Crafanc mawr yn fy nal.."
(Llŷr Dunsford, Glantaf)

Gwelodd eraill fwganod tra gwahanol:

"Mae'r athrawes piano yn fwgan i mi,
Diffyg ymarfer
Bang! bang! bang!.."
(Claire Griffiths, Rhydfelen)

"Y bwgan mwyaf i mi
Yw ofn a dirgelwch marwolaeth.."
(Esyllt Swain, Llanhari)

"Rwyn cau fy llygaid mor dynn ag rwyn gallu,
Rwyn gallu teimlo rhywun yn syllu...
O Mam!"
(Bethan Arwel, Llanhari)

Mewn cystadleuaeth mor dda, roedd angen cerddi go arbennig i gipio'r gwobrau - a dyna a gawsom; cerddi aeddfetach a gwahanol i'r rhelyw. Angharad Devonald o Lanhari yn cael ei phoeni gan "..ysbrydion y gorffennol, sydd eto heb farw..""..erchylIterau annweladwy i bawb arall, ond sy'n hollol eglur yn fy nghof i."
Laurie Evans o'r Cymer wedyn yn arswydo rhag y bwgan gwaethaf un, sef marwolaeth:

"yn hela ei ddioddefwr
a'i gipio
fel aderyn ysglyfaethus..
Y bwgan hwn yw unig sicrwydd bywyd."

Rhown y wobr gyntaf o rhyw chydig i Eleri Knight. Llanhari a welodd mai'r dychymyg sy'n creu bwganod, - fel cyfrifiadur yn gorlwytho. Mae'n gerdd syml a chrwn, ac yn deilwng mewn cystadleuaeth wirioneddol dda.

| | |
|---|---|
| Cyntaf: | Eleri Knight, Llanhari |
| Ail: | Laurie Evans, Y Cymer |
| Trydydd: | Angharad Devonald, Llanhari |

Ymysg y goreuon: Tomos Guy, Llŷr Dunsford, Rhys Morgan (Glantaf) Rhian Griffiths, Jada Vine, Kelly Dumville, Rhiannydd Dutfield (Y Cymer) Bethan Morris, Shelley Davies, Emma Morgan, Andrew Jacob, Claire Griffiths, Suzanne Knox, Ceri Davies (Rhydfelen) Bethan Arwel, Carly Pegg, Anne Jones, Rhian Lewis, Luned Phillips, Esyllt Swain, Sara Esyllt (Llanhari).

BWGANOD

Lluniau,
Yng nghefn fy meddwl,
Lluniau tywyll du.
Hen atgofion plentyndod,
O'r hyn a fu.
Cofio.
Cofio gweld ysbrydion,
Ofn ac arswyd mawr.
Ond nawr mae'r peth yn eglur.
Yr anweledig yn diflannu'n llwyr
Nid bwgan,
Nac anghenfil,
Ond fy nychymyg i.
Y cyfrifiadur yn gorlwytho,
Yn creu lluniau ffug,
O bobl ac o bethau
Sy'n dod o'r ochr draw.

Eleri Knight
Ysgol Gyfun Llanhari

### Blwyddyn 10 ac 11: "Cyffion"

Ceisiodd 67 ymryddhau rhag rhyw gaethiwed neu'i gilydd, gyda'r rhan fwyaf yn bur benderfynol o lwyddo, ddwedem ni. Roedd rhai'n dianc o garchar; eraill rhag eu hanabledd. Cawsom rannu cell dywyll â chaethweision a charcharorion gwleidyddol ar draws y byd, a'n hatgoffa mai mewn cell wleidyddol y trigwn ninnau fel cenedl. Gorfodwyd ni i wisgo cyffion diflastod yng nghell diweithdra, a diflastod cell yr ysgol! Yn wir, gwelsom fod cyffion i'w cael ym mhob agwedd ar fywyd, a'r byd a'i bethau. Dyma bytiau sy'n werth eu dyfynnu mewn cystadleuaeth gwerth chweil:

"Olwynion yw fy nhraed.."
(Samantha Jones, Rhydfelen - cyffion anabledd)

"Siglaf y crud o ochr i ochr,
A'i sgrechiadau aflafar yn llenwi'r 'stafell..
Clytiau brwnt ym mhob man,
Ei ddwylo bychain yn gafael yn dynn,
Yn ymbil am gynhesrwydd a chariad
Na allaf eu rhoi.."
(Lowri Pugh, Cwm Rhymni - cyffion y fam oer)

"Roeddwn yn gaeth,
Caeth o fewn bryniau brawychus,
A'r cwm yn gyffion crafangus
Yn gwrthod fy rhyddhau.."
(Gwenan Huws, Cwm Rhymni - cyffion bro magwraeth)

"Fywydau yn ôl fe ddes i yma..
Mae'r angylion gwyn yn dweud
'Does dim gobaith'.."
(Richard Hill, Rhydfelen - cyffion côma)

"Y galon yn crio allan am gariad,
Fel petal ar ben bom.."
(Ffion Haf, Rhydfelen - caethweision ein byd)

Mae tair cerdd yn dod i'r brig; tair aeddfed, wedi'u mynegi'n gynnil a disgybledig a chrwn. Bu'n annodd gwahanu rhyngddynt ond, o drwch blewyn, mae Aaron Fortt â'i gerdd am gyffion cenedl y Cymry yn rhagori. Cystadleuaeth arall o safon uchel oedd hon, a nifer yr enillwyr yn adlewyrchu hynny.

| | |
|---|---|
| Cyntaf: | Aaron Fortt, Y Cymer |
| Ail agos: | Iwan England, Rhydfelen |
| | Cerian Arianrhod, Rhydfelen |
| Trydydd: | Gwenan Huws, Cwm Rhymni |
| Ffion Haf, Rhydfelen | Lowri Pugh, Cwm Rhymni |
| Richard Hill, Rhydfelen | Magi Dodd, Rhydfelen |

CYFFION

Daliaist fi a'm rhoi mewn cyffion.
Atynaist fi gyda neithdar dy dir.
Ymddiriedais yn sicrwydd a phurdeb dy iaith.
Baban oeddwn yn sugno ar fron ei fam,
yn bwydo ar faeth dy ddiwylliant.
Ti a luniodd llun fy mywyd
â phaent hanes dy orffennol.
Llanwyd y canfas,
clowyd cyffion tynged am wddf fy nyfodol.

Gâs gen i dy hunanoldeb pitw,
A'th weision hunan-gyfiawn duwiol.
Caethiwaist genedlaethau gydag euogrwydd
er lles dy fodolaeth.
Plentyn amddifad wyt mewn byd o berthnasau,
a ffynnai anniddigrwydd o'th ofn.
Byrlymai gwaed dy wrol ryfelwyr,
ond siom fyddai eu hanes bob tro.
Canys nid wyt yn arbennig
er gwaethaf dy freuddwydion.

Fflangellwyd dy blant gan eiriau arwynebol
sy'n treiddio'n ddwfn i gnawd teimlad:

"Welshcakes, Welshcakes, who baked you?"

Poenydia'r Sais ein hifanc,
pam nad ildiaist heb ornest?
Gwae Llywelyn a'i Gymry!
Gwae Glyndwr ym Machynlleth a fu!
Ai'n rhydd neu'n gaeth
saif "yr hen fits yna o genedl"
yn ei meddwl ei hun?

Aaron Fortt
Ysgol Gyfun y Cymer

### Blwyddyn 12 ac 13: "Ffoadur"

Dim ond 5 ymgais y tro hwn mewn cystadleuaeth braidd yn siomedig o ran safon hefyd, o ystyried mai disgyblion y chweched dosbarth sydd wrthi. Wedi dweud hynny, rhoddodd un o'r pump inni gerdd sydd wedi ein hysgwyd. Mwy am hynny yn y munud.

Dyheu am ddianc o ddiflastod bywyd ysgol a wna Heledd Williams (Glantaf), a hynny rhaid dweud mewn modd sy'n ennyn ein cydymdeimlad. Dyma gip ar feian Heledd:

"Codi i glywed swn y larwm yn byddaru trwy'r tô.
Swn Mam yn gweiddi, yn union fel athrawes,
'Côd, brysia.' ..
Sefyll ar y bws, dim sedd ar gael,
Yr awyr yn dew gan fwg sigâr y gyrrwr..
Traffig a phob golau yn goch..
Rhedeg i'r wers gan weddio na fyddai traethawd arall,
Nefoedd fyddai noson heb draethawd.."

Digon addawol, Heledd, ond rhyddiaethol ydy'r mynegiant. Breuddwydio am ffoi y mae Anna Davies (Glantaf); breuddwydio gwystl mewn cell:

"Caeth,
Trwy'r dydd, bob dydd,
Dim hafn (llafn?) o obaith..
Unigedd,
Fy nychymyg yn gwmni."

Tueddu i ddweud pethau amlwg, braidd, mae'ch cerdd Anna, heb dreiddio'n ddigon dwfn i feddwl a theimladau'r gwystl. Trychineb Somalia symbylodd Aled Williams, eto o Lantaf, i ganu'i gerdd afaelgar. Mae ynddi syniadau aeddfed:

"Miloedd ar filoedd
Yn symud;
Llif o bobl yn arllwys..
Eu hasennau'n ymwthio allan.."

Hon yw'r daith tuag at werddon nad yw'n bod:

"Gweld siawns - golau cannwyll yng ngheg ogof,
Yn eu llenwi â hyder,
Cannwyll sy'n prysur losgi,
Ac mae'r amser yn prinhau."

# CYSTADLEUAETH IOLO MORGANWG

Addawol iawn Aled. Ceisiwch fwy o gynildeb; ceisiwch dynhau'r mynegiant; a choflwch mai "Ffoadur", ac nid "Ffoaduriaid" yw'r testun! Cenedl y Cymry yw ffoadur Sara Evans (Glantaf). Er hynny, fe wêl Sara obaith fod rhyddid o fewn ei chyrraedd. Dyma damaid o'r gerdd, sy'n dangos y patrwm adleisio pendant a geir ynddi:

"Ffoi; ffoi ymhell
 rhag helwyr y bobl.
 Gelyn; gelyn yn agosau..
 Lladd; lladd heb waed
 ond lladd arferion sy'n trengi..

 Bywyd; bywyd newydd
 ar y gorwel.."

Hoffem Sara pe byddech wedi delweddu mwy ac, er fod yr ail-adrodd yn effeithiol, fe dueddodd i ormesu'r dweud. Mae neges yn bwysicach na phatrwm. Daliwch ati.

Y gerdd sydd ar ôl, sef cerdd Lee Haven-Jones (Rhydfelen), aeth â'n bryd o'r darlleniad cyntaf. Yn wir, pe byddai 100 wedi cystadlu mae'n anhebyg y ceid gwell cerdd na hon. Gwraig sy'n cael ei churo gan ei gŵr yw'r 'ffoadur' y tro hwn. Mae'n "dyheu am ffoi o grafanc creulon" ei gariad, ac yn cilio i encil y bathrwm i lowcio paracetemol. Mae holl ddryswch y cariad a'r casineb yn corddi'n ysgytwol drwy'r gerdd. Yn wir mae'n anodd credu mai myfyrdod dychmygol yn unig sydd yma. Mi fyddwn yn rhyfeddu os na fydd y gerdd hon, gyda mymryn o dwtio, ar y brig ym Mhrifwyl yr Urdd 1993.


# CYNNIG Y TYMOR

yn **Oriel** - ble arall?

❄

Cynnig arbennig eleni ar gyfer y Nadolig ar gael 'nawr.

**Y GEIRIADUR CYFOES / THE MODERN WELSH DICTIONARY**

100,000 o eiriau a ddifiniadau adolygiad cyflawn

Pris gwerthu arferol **£9.99**

Pris anghredadwy o **£6.99**
i siopwyr personol yn Oriel.

# ARBEDWCH £3

Galwch heibio am eich copi heddiw.

❄

***AGORIAD HWYR AR GYFER Y NADOLIG***

***Dydd Iau Tachwedd 12***
***hyd at 8 yr hwyr***

***Dydd Iau Rhagfyr 3***
***hyd at 9 yr hwyr***

***Dydd Iau Rhagfyr 10***
***hyd at 9 yr hwyr***

***Dydd Iau Rhagfyr 17***
***hyd at 9 yr hwyr***




Oriel,Siop Lyfrau Cyngor y Celfyddydau
Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd CF1 4AA


| | |
|---|---|
| Cyntaf: | Lee Haven-Jones, Rhydfelen, gyda chanmoliaeth uchel. |
| Ail: | Sara Evans, Glantaf. |
| Trydydd: | Aled Williams, Glantaf. |

FFOADUR

"Y Bitch";
 llygaid llosg satanaidd,
poltergistaidd braidd
ar 'ngwyneb
Codi llaw eto, a theimlo
lasŵ ei ddwylo
o gylch 'ngwddw'n
cau.
"Y Slwt";
 ergyd enbyd
lledr ei gledr
yn llosgi
a dyheu am ffoi
o grafanc creulon
'nghariad.

Dianc o'r diwedd i dawelwch
pastel y bathrŵm.
Ymbalfalu, straffaglu,
ac ymestyn i gwpwrdd.
Chwilio,
cyffwrdd,
a chyrraedd o'r diwedd
y botel o baracetemol.

S'dim ffoi,
dim dianc,
o grafanc creulon cariad,
o afael amrwd yr anghenfil
sy'n ŵr imi.

S'dim ar ôl bellach,
 ond
cysur cyffur
sy'n lleddfu poen
casineb 'nghariad.

"Nos da 'ngŵr,
Cred i'th euogrwydd
dy fyta'n fyw."

Lee Haven-Jones
Ysgol Gyfun Rhydfelen

Bydd gweddill y feirniadaeth yn rhifyn nesaf Tafod Elái.

# TALWRN Y BEIRDD

Longyfarchiadau i Dîm y Garth sydd wedi mynd ymlaen i'r ail rown yng nghystadleuaeth Talwrn y Beirdd. Bydd y rownd nesaf ar 14 Ionawr ym Merthyr yn erbyn Pendefigion Dyfed.

# PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Delyth Jones

YSGOL EVAN JAMES

Llongyfarchiadau i Matthew Allmark ar ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth dathliadau Ewropeaidd am beintio llun ac ysgrifennu brawddeg.

Cynhelir Gwasanaethau Carolau yr Ysgol eleni ar y 15eg o Ragfyr. Gwasanaeth y Babanod fore Mawrth a'r Adran Iau Nos Fawrth yn yr ysgol.

PLANT MEWN ANGEN

Fe ddaeth 'Hawk' un o'r ymladdwyr i ymweld â'r ysgol Dydd Gwener 20fed o Dachwedd ac fe gafodd nifer o blant eu lluniau wedi eu tynnu gyda fe.

EURO GALA NOFIO

Llongyfarchiadau i Daniel Phillips, Gareth Oakey, Amy Withey, Gemma James a Rhys Pelley am ennill gwobrau nofio yn yr Euro Gala - ac i'r timau cyfnewid - Iestyn Carver, Rhys White, Rhiannydd Evans a Beca Caffrey.

YSGOL PONT SION NORTON
GWASANAETHAU CAROLAU

Mae dyddiad y Gwasanaethau Carolau wedi newid o'r hyn a ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf. Cynhelir Gwasanaeth y Babanod fore Sul Rhagfyr 13eg a'r Adran Iau, Nos Sul, Rhagfyr 13eg am 6 o'r gloch. Y rheswm am y newid ydy fod Capel Sardis yn cael ei beintio a'i addurno a gobeithir cwblhau'r gwaith erbyn 13eg.

PÊL RWYD

Llongyfarchiadau i'r tîm pêl rwyd a enillodd 5 - 3 yn erbyn Ysgol Craig yr Hesg.

DATHLIADAU EWROPEAIDD

Llongyfarchiadau i dîm yr ysgol am ennill cystadleuaeth Olympaidd a gynhaliwyd yng nghanolfan y Ddraenen Wen yn ddiweddar.

# DIRGELION IWERDDON

Peth rhyfedd fod dau gôr o'r ardal hon wedi mynd i'r Iwerddon o fewn mis i'w gilydd yn yr Hydref a'r un o'r ddau yn fodlon adrodd hanes eu teithiau yng ngholofnau Tafod Elái.

Gallwn ddatgleu fod Cantorion Creigiau wedi teithio drwy garedigrwydd bws Clwb Rygbi Pentyrch a llongau fferi B & I gan aros mewn gwesty moethus yn Dun Laoghaire. Cymaint oedd moethusrwydd eu gwesty a'r bwyd hyfryd bu raid iddynt gael Plisman ar foto-beic i'w hebrwng drwy bob golau coch yn Nulyn er mwyn cyrraedd un cyngerdd mewn pryd.

Cyrhaeddodd Côr Godre'r Garth ar ddiwedd cyfnod o stormydd yr Hydref i gael pedwar diwrnod o dywydd bendigedig o braf yn Nulyn. Roedd y croeso yn un cynnes dros ben yn arbennig wrth deithio i Dundalk ar y ffîn â Gogledd Iwerddon ac hefyd i ganol ardal amaethyddol yn Castlepollard. Yno, mae'n debyg, roedd y trefniadau yng ngofal y ficer lleol ac yn dilyn y cyngerdd yn yr eglwys fe dywysodd y côr drwy ddrws ffrynt siop a swyddfa bost gan arwain at far bach clud iawn yng nghefn yr adeilad. Yno fe arweiniodd y côr mewn datganiad hyfryd o 'Molly Malone'.

Mae'n siwr bod llu o hanesion gan y ddau gôr am eu teithiau, am y Guinness ac am y croeso. Ond rhaid fydd holl aelodau'r côr i gael yr hanes i gyd.

**CLWB CERDDED**
**TAF ELÁI**

Taith gerdded tua
3 milltir.
Cwrdd:
Maes Parcio Heol y Sarn
Llantrisant
2 p.m. Dydd Sul
24 Ionawr 1993

Manylion pellach:
0222 891353
Croeso i bawb.

# LLANILLTUD FAERDREF



PRIODAS

Ar Ddydd Sadwrn, Hydref 10fed, priodwyd Catherine Elan, Llanilltud Faerdref ag Ian Taylor, Caerdydd.

# LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Wyn Thomas

CYNGERDD Y NADOLIG

Cynhelir Cyngerdd Nadolig Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant yn Eglwys y Plwyf Llantrisant ar ddydd Mawrth Rhagfyr 8fed gan ddechrau am 2.00 o'r gloch

YSGOL FEITHRIN LLANTRISANT

Yn eisiau ar gyfer mis Ionawr, athro neu athrawes ar gyfer Ysgol Feithrin Llantrisant, Pontyclun i ddysgu bob bore o 9.15 i 11.45 tâl o £48 yr wythnos. Am fanylion pellach cysyllter a Owen Hopkin 0443 225483 neu Tracey Muir 0443 203856.

# TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Helen Jones

AELWYD YR URDD
Mae'r Aelwyd wedi ail-ddechrau cwrdd ar Nos Fawrth rhwng 6.30 p.m. a 8 o'r gloch o dan ofalaeth Neil Pike. Mae croeso i bobl ifanc sydd yn nosbarthiadau 1, 2 neu 3 yn yr ysgol uwchradd.

GWELLHAD BUAN
Rydym yn falch o glywed fod John James, Milford Close, Tonteg, yn gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Hefyd Natalie Challenger, Y Ridings, a fu'n treulio sbel yn yr ysbyty yn ddiweddar.

DYWEDDIAD
Llongyfarchiadau i Llŷr Jones, Tŷ Draw, Pentre'r Eglwys ar ei ddyweddiad gyda Helen Milford o Beddau.

# GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: E. June Huws

CLWB MEITHRIN NEWYDD
Yn dilyn yr adroddiad 'Y Gymraeg yn Nhaf Elái' mae Ann Williams a Judith Jevons wedi penderfynu ehangu'r ddarpariaeth feithrin yn y pentref. Yn ogystal â'r Ysgol Feithrin yn y bore bydd Clwb Meithrin yn cwrdd yn y prynhawn, gyda chyfle i'r plant wella'u Cymraeg drwy gyfrwng caneuon, storiau ac yn y blaen. Bydd y fenter yn cychwyn ar ddydd Mawrth, Ionawr 5ed (1.15 p.m. - 3.15 p.m. Llun - Gwener). Maent wedi derbyn cymorth oddi wrth Ysgol Gwaelod y Garth, y Mudiad Ysgolion Meithrin a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwybodaeth pellach oddi wrth Ann Williams: 0222 810190.

YSGOL GWAELOD Y GARTH
Llongyfarchiadau i dimau rhedeg traws gwlad yr ysgol. Daeth tîm hŷn y merched a thîm hŷn y bechgyn yn gyntaf mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd y Cefn ym mis Hydref.

# PROFIAD GWAITH



Rachel Lidiard a Rhiannon Thomas yn gweithio yn Tesco

Aeth 25 o ddisgyblion Ysgol Gyfun Llanhari ar brofiad gwaith Ariwyo o'r 28ain o Fedi i'r 2il o Hydref. Dyma rhai o'r lleoedd a fuon ni - Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty Dwyrain Morgannwg, Tesco Tonysguboriau, Trefforest a Phenybont, Hickorys Tonysguboriau, Gwesty Coed y Mwstwr, Gwesty'r Seabank Porthcawl, Harvesters Pencoed, Y Pioneer Pîl, Adran Arlwyo Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Carpanini's Tonyrerfail a Choleg Technegol Pontypridd.

Fe es i Tesco Trefforest gyda Rhiannon Jones. Roedd y staff i gyd yn gyfeillgar ac yn barod iawn i helpu. Roedd profiad pawb yn werth chweil ac mae saith ohonom ni wedi ehangu ar ein profiad drwy gael swyddi dros dro yn y sefydliadau. Mae profiad fel hyn yn dda achos mae'n gallu dangos i ni sut i ymddwyn a bod yn gyfrifol yn y byd mawr.

Rachel Lidiard

**PENTYRCH**

CYDYMDEIMLAD
Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Miriam Jones, Isiwyn, Heol y Pentre ar farwolaeth ei gŵr yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Branwen Rose, Blwyddyn 5, ar gael ei dewis i gynrychioli'r ysgol yn y rhaglen 'Digwydd' ar Radio Cymru.

HYFFORDDI PÊL DROED
Roedd Tommy Hutchinson yn enw cyfarwydd i rieni'r tô presennol o blant fel chwaraewr pêl-droed proffesiynol i Ddinas Manceinion, Abertawe a'r Alban. Bellach mae plant yr ysgol, yn fechgyn a merched, yn elwa o'i brofiad. Bu Mr Hutchinson yn ymweld â'r ysgol yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Datblygu Pêl-droed yn Ne Cymru.


DEWCH I AIL FYW OES AUR Y DIWYDIANT GLO



Cewch gyfle i brofi bywyd mewn pwll glo yn y Rhondda dros y 150 mlynedd diwethaf gyda cyn-lowr fel arweinydd.

Mae cymeriad unigryw y Rhondda yn cael ei gyfleu trwy lygaid tair cenhedlaeth un teulu glofaol.

Fe welwch olygfeydd, fe glywch synnau a chewch brofi arogleuon oes a fu, yn fyw o flaen eich llygaid.

AR AGOR 10 - 6
Dilynwch yr arwyddion ffordd o'r A470. Am fwy o fanylion cysylltwch a Mary Scourfield 0443 682036.

AUR DU
HANES GLO

Gorffennol gogoneddus ar gof a chadw

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Eleri Jones

GWELLHAD BUAN
Mae'n dda clywed bod Lowri Morris, Troed y Garth yn gwella ar ôl bod yn yr ysbyty yn ddiweddar yn cael ei thonsils allan.

MERCHED Y WAWR
Bu aelodau Cangen y Garth yn derbyn cynghorion ynglŷn â choluro yn eu cyfarfod mis Tachwedd pan ddaeth Sioned Davies atom i sôn am therapi harddwch. Mae gan Sioned gysylltiadau a'r ardal gan ei bod yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Garth Olwg ond bellach mae'n byw yng Nghaerdydd ac yn berchen ar 'Stiwdio Sioned' yn Old Church Road yn yr Eglwys Newydd.

CLWB Y DWRLYN
Un o uchafbwyntiau blynyddol y gymdeithas hon yw'r noson "Brethyn Cartref". Ni fu eleni yn eithriad a chafwyd cryn hwyl wrth i Bentyrch a'r Creigiau gystadlu yn erbyn ei gilydd. Fyddai'r noson wrth gwrs ddim yn gyflawn heb hiwmor unigryw ac afiaith arferol Geraint Hughes. Llawer o ddiolch.

Y BROWNIES
Hoffai'r Brownies ddiolch yn ddiffuant i Mrs Myra Thomas, Pantbach am drefnu Ffair Grefftau iddynt yn Neuadd y Pentref ar Dachwedd 14eg. Buont wrthi'n ddiwyd drwy'r dydd dan ei harweiniad yn paratoi ar gyfer y Nadolig.

YR YSGOL FEITHRIN
Mae gan Ann Hughes gyflenwad o gardiau Nadolig y Mudiad Meithrin ar werth. Os oes unrhyw un yn dymuno cefnogi trwy brynu dylid cysylltu â Ann Hughes ar Bentyrch 892038.

DYRCHAFIAD
Llongyfarchiadau i Lowri Morgan, Bryn yr Eglwys sydd ar staff y BBC a newydd gael ei hapwyntio'n olygydd y rhaglen "Taro Naw". Pob hwyl gyda'r gwaith.

DOSBARTHIADAU CYMRAEG
Os gwyddoch am rywun sydd â diddordeb mewn dysgu Cymraeg, bydd dosbarthiadau'n dechrau yn Ysgol Pentyrch ar nos Lun, Ionawr 11eg o 7 o'r gloch tan hanner awr wedi wyth.



Llio Penri, Pentyrch sy'n ymddangos gyda Rhys Morris, Penybont ar Ogwr ar y rhaglen Labrinth ar S4C am 4.30 p.m. 31 Rhagfyr. Yn y llun mae Kevin Davies, cyflwynydd y rhaglen.

# BRETHYN CARTREF

Tasg anodd criw Clwb y Dwrlyn ym mis Tachwedd oedd paratoi ar gyfer y dôs flynyddol o Frethyn Cartref a daeth criw brwdfrydig ynghŷd i Glwb Rygbi Pentyrch i wrando ar y beirniad, Geraint Hughes yn didoli cynnyrch pentrefi Creigiau a Phentyrch.

Os oedd gwaith llwyfan un pentref wedi rhagori mae'n rhaid bod gwaith cartref y pentref arall ar y blaen oherwydd er cymaint y sgôr am rhai cyflwyniadau, cyfartal union oedd y sgôr ar ddiwedd y noson.

ENGLYN

Brathu ar ddarn o'r brethyn – a nyddu
Yr eiddew'n edefnyn
A oes sôn am friwsionyn
Ym Mosnia i'r heidia hyn?

CHWE EPIGRAM CYFOES

1. Gorau arf, arfogi Saddam.
2. Deuparth gwaith yw ei gael.
3. A ddaw gobaith o bentref Hope?
4. Nid da, lle gellir cwrs golff.
5. Masnachwyr arfau, Rhyfel Cartref – llef un yn llefain yn yr anialwch.
6. Gorymdaith Iaith, Meibion Glyndwr ar daith. (Dr Allan Williams).

TELIGRAM

ORDEINIWYD OLWEN
– OFFRYMWYD OFFEREN OLAF OWAIN.

GORFFEN LIMRIG

Mae 'na foi sy'n cefnogi tîm Chelsea.
Mae 'na ddau yn cefnogi Cwm Deri!
Dilyna tua deg
Dîm y Jacs – chwarae teg –
Ond mae pawb yn syporto Llanelli.

Mae na foi sy'n cefnogi tîm Chelsea
Sydd i M.F.I.'n ymdebygu
Ei broblem fawr e
Un sgriw mâs o le
Ac mae'r cabinet oll wedi chwalu.

DEIALOG
yn defnyddio geiriau mwys ar y testun
'Y Tŷ Bwyta'

Dyn: Hylo siwgwr.
Menyw: Hi, honey.
Dyn: Ty isho diod?
Menyw: Plaice
Dyn: Un biriani?
Menyw: Na, hir ond del.
Dyn: Iawn. O hake.
Menyw: Be sy?
Dyn: Sal a dwi'n dost.
Menyw: Hy! Sham pain?
Dyn: Na, salmon ela.
Menyw: Crwton Pawb Ti mewn stiw.
Dyn: Rêl ffics.
Menyw: Hei gwranda. Dwi ddim yn fodlon deud y jôc na am gyw iar mewn gwin.
Dyn: Spam?
Menyw: Swil
Dyn: Chicken.
Menyw: Crumbs. Ydy'r plant efo chdi?

..... ac yn y blaen .....

# YSGOL GARTH OLWG

PLANT MEWN ANGEN

Bu holl blant yr ysgol yn brysur iawn dydd Gwener, Tachwedd 20ed yn codi arian i gronfa Plant Mewn Angen. Roedd neuadd yr ysgol yn llawn stondinau yn gwerthu cacennau, bisgedi, hetiau, baneri, bathodynnau, breichiedi, nwyddau ar gyfer y Nadolig, diodydd a.y.b. Llwyddwyd i godi £250 tuag at yr achos da hwn. Bu rhai o'r plant hefyd yn gwerthu bathodynnau y tu allan i Tesco ar y nos Iau.

PANTOMEIM BLODEUWEDD

Aeth holl blant yr ysgol i Fedwas ar brynhawn Mawrth, Tachwedd 17eg i weld y pantomeim "Blodeuwedd" a chawsant ddigon o hwyl wrth weld yr hen chwedl ar ei newydd wedd. Ar ddydd Gwener, 27ain Tachwedd daeth sioe Mici Plwm a Rosfa i ddiddori'r Adran Iau.

DYDDIADAU I'W COFIO

Rhagfyr 4ydd - Sioe Martyn Geraint i'r Adran Babanod. Rhagfyr 5ed - Ffair Nadolig. Rhagfyr 10fed - Gwasanaeth Naadolig yn Salem, Tonteg. Rhagfyr 11eg - Cinio Nadolig. Rhagfyr 12eg - Disgo i'r Rhieni a'r Athrawon yn Efail Isaf. Rhagfyr 14eg - Parti Nadolig y Babanod gyda Siôn Corn. Rhagfyr 15fed - Parti a Disgo i'r Adran Iau. Rhagfyr 16eg - Aelodau'r Urdd yn Canu Carolau tu allan i Gateway am 4 p.m.

LOWRI DAVIES
- PELDROEDWRAIG GARTHOLWG

Dechreuais chwarae pêl droed yn yr ysgol. Gofynais i un o'r bechgyn os gallwn chwarae a dywedodd "Cewch! Chwaraewch yn y cefn". Doedd y bechgyn ddim yn meddwl llawer am fy chwarae i ddechrau ond dechreuais wella, am fy mod i eisiau chwarae i'r ysgol. Roeddwn i'n hoffi chwarae ac roeddwn eisiau bod yn un o'r goreuon. Roeddwn yn ymarfer adref gyda fy mrawd, James, ac wedyn dechreuais ymarfer gyda tîm dan 10 oed Llanilltud Faerdref. Doedd y bechgyn ddim yn fy hoffi yn chwarae ar y dechrau ond erbyn hyn maent yn meddwl amdanaf fel un o'r tîm. Daeth y tîm yn ail yn y Gynghrair y llynedd a chefais ddwy fedal - un am fod yn y tîm a'r llall am fod yr unig ferch yn y tîm. Ar hyn o bryd rydw i'n chwarae i dîm Ysgol Gymraeg Gartholwg ac i dîm Llanilltud Faerdref.

Lowri Davies




# Y CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Sheila Dafis

NEWID AELWYD

Dymuniadau gorau i deulu Gwyndy - sef Huw a'i briod Phillipa a'r plant, Nicholas, Gareth a Sarah. Penderfyniad Cwmni Geest i symud o'r Barri i Southampton sy'n eu gorfodi i adael y Creigiau am dde Lloegr. Mae'r pentref ar ei golled oherwydd bu'r ddau yn barod eu cefnogaeth i weithgareddau lleol. Bu Huw'n gadeirydd 'Cyfeillion yr Ysgol' a Phillipa hefyd yn torchi llawes bob cyfle a gâi.

Pob hwyl iddyn nhw yn eu cartref newydd. Peidiwch a bod yn ddiethr.

Symud tŷ hefyd fu hanes Marian ac Aled Rees a'r plant. Ond, dim ond tua 2 gan llath y tro yma! Gwelwyd eu confoi yn teithio 'nol a 'mlaen yn brysur ar hyd Parc y Fro, a Geraint a Heulwen yn cario'r llwythi trwm tra roedd Mam a dad yn yfed tê.

ADRAN IAU YR URDD

Diolch i'r llu rhieni a fu'n cymryd eu tro i ddiddori'r plant yn ystod y tymor. Heb eich cefnogaeth barod yna ni fyddai modd cynnal yr Adran Iau. Yn sicr mae'r plant yn elwa o'r cymdeithasu.

DIOLCH I'R PLANT

Mi fu 'na brysurdeb mawr rhwng dysgu ar gyfer cyngherddau Nadolig yr ysgol a'r capell a gweithgareddau eraill y pentref. Da iawn chi blant. Mwynhewch chithau eich gwyliau, heb anghofio am Sion Corn - mi fydd yntau yn brysur cyn bo hir. Cofiwch chi adael mins pei neu damaid o gacen Dolig iddo fo, i'w gynnal ar ei daith o dŷ i dŷ.

YSGOL Y CREIGIAU

Gwelodd mis yr Hydref y plant yn dod â chyfraniadau i'r ysgol ar gyfer eu gwasanaeth diolchgarwch. Rhoddwyd y ffrwythau a'r llysiau ac yn y blaen a gyfranwyd gan y babanod i Ysgol Craig y Parc, ac fe aeth rai o blant safon 4 i ymweld â'r ysgol a throsglwyddo eu rhoddion. Gwnaethpwyd nifer o ffrindiau newydd. Danfonwyd siec o £160 i 'Mencap' - hynny oedd cyfraniad yr Adran Iau i'r achos.

Yn ôl yr arfer mae plant yr ysgol yn cael cyfle i gefnogi a chyfrannu at achos da arall hefyd sef 'Apêl Plant Mewn Angen'. Eleni caniatawyd i'r plant wisgo unrhyw wisg ffansi a braf oedd gweld y plant yn mwynhau eu hunain mewn gwisgoedd lliwgar ac amrywiol a helpu eraill llai ffodus ar yr un pryd.

Mae'r ysgol hefyd yn paratoi'n frwdfrydig at weddill y tymor a'r llu o bartion a chyngherddau Nadolig. Ond tydi Nadolig yn cyrraedd yn gyflymach bob blwyddyn! Cyn bo hir fe fydd addurniadau a'r goeden i fyny a naws y Nadolig yn cael gafael arnom i gyd. Efallai welwn i chi yn un o'r cyngherddau neu yn nawns Cyfeillion yr Ysgol. Mwynhewch eich hunain!

Rhaid peidio ag anghofio y Cwis Llyfrau ychwaith - fe fydd dau dîm o'r ysgol yn cystadlu eleni, uno dan ddeuddeg ac un o dan ddeg. Ar hyn o bryd mae'r plant (a'r athrawon!) yn brysur paratoi eu hunain ar gyfer y rownd gyntaf. Pob lwc iddynt, gobeithiwn yn fawr y bydd eu holl waith caled yn dangos ffrwyth.

Nawr yw tymor y Nadolig.

Addurniadau yn hongian o'r nenfwd.

Dathlu y Nadolig achos cafodd Iesu Grist ei eni ydym.

Os doedd Iesu Grist heb gael ei eni bydd dim siwt beth â Nadolig

Losin rydyn ni'n cael ar ddydd Nadolig.

Iesu Grist wnaeth y Nadolig.

Gwynt a rhew ac eira gawn ni yn ystod tymor y Nadolig siwr o fod.

Suzanne Thomas

Un Nadolig roedd Padington wedi gwahodd ei deulu i ginio Nadolig. "Dewch am bump o'r gloch a gewch chi pwdin Nadolig anferth."

A dyma'r cloc yn taro pump. Roedd y bwrdd yn barod. Trôdd y golau i ffwrdd. Dim ond golau'r ganwyll oedd i weld. CNOCI-CNOCI. Agorodd Padington y drws "Helo mam a dad. Helo Rhian". "Helo Padington". "Dewch i mewn bawb" dwedodd Padington.

"Ble mae'r tinsel ar y goeden?" meddai Dadi Padington. "Ble mae'n hanrhegion ni?" meddai Rhian. "Ha Ha Ha. Mae'n stori hir". "Dwed wrthon ni!" "O'r gorau, ar ôl tê".

I de gawson nhw .... dwrci, tatws, stwffin a grefi ac i bwdin gawson nhw bwdin Nadolig, jeli a cwstard. "Gawn ni wybod pam does dim coeden na tinsel i fynd ar y goeden Nadolig na anrhegion?"

"Achos roeddwn i eisiau i chi fy helpu i". "Beth wyt ti'n meddwl?" "Yfory rydyn ni'n mynd i gael y goeden Nadolig fwyaf erioed. A'r tinsel gorau yn y siop. Ac anrhegion hyfryd."


"Mae'n chwech o'r gloch, well i ni fynd".

HWYL FAWR!

Elin Lloyd

**BETH SYDD AR GOLL?**

gan Gwilym, Kirsty a Richard



# 1993 Tafod Elai 1993




| | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llun | | 1 | 1 Gwyl Dewi | | | | | | | | 1 | | Llun |
| Mawrth | | 2 | 2 | | | 1 | | | | | 2 | | Mawrth |
| Mercher | | 3 | 3 | | | 2 | | | 1 | | 3 | 1 | Mercher |
| Iau | | 4 | 4 | 1 | | 3 | 1 | | 2 | | 4 | 2 | Iau |
| Gwener | 1 | 5 | 5 | 2 | | 4 | 2 | | 3 | 1 | 5 | 3 | Gwener |
| Sadwrn | 2 | 6 | 6 | 3 | 1 | 5 | 3 | | 4 | 2 | 6 | 4 | Sadwrn |
| Sul | 3 | 7 | 7 | 4 | 2 | 6 | 4 | 1 | 5 | 3 | 7 | 5 | Sul |
| Llun | 4 | 8 | 8 | 5 | 3 | 7 | 5 | 2 | 6 | 4 | 8 | 6 | Llun |
| Mawrth | 5 | 9 | 9 | 6 | 4 | 8 | 6 | 3 | 7 | 5 | 9 | 7 | Mawrth |
| Mercher | 6 | 10 | 10 | 7 | 5 | 9 | 7 | 4 | 8 | 6 | 10 | 8 | Mercher |
| Iau | 7 | 11 | 11 | 8 | 6 | 10 | 8 | 5 | 9 | 7 | 11 | 9 | Iau |
| Gwener | 8 | 12 | 12 | 9 | 7 | 11 | 9 | 6 | 10 | 8 | 12 | 10 | Gwener |
| Sadwrn | 9 | 13 | 13 | 10 | 8 | 12 | 10 | 7 | 11 | 9 | 13 | 11 | Sadwrn |
| Sul | 10 | 14 | 14 | 11 | 9 | 13 | 11 | 8 | 12 | 10 | 14 | 12 | Sul |
| Llun | 11 | 15 | 15 | 12 | 10 | 14 | 12 | 9 | 13 | 11 | 15 | 13 | Llun |
| Mawrth | 12 | 16 | 16 | 13 | 11 | 15 | 13 | 10 | 14 | 12 | 16 | 14 | Mawrth |
| Mercher | 13 | 17 | 17 | 14 | 12 | 16 | 14 | 11 | 15 | 13 | 17 | 15 | Mercher |
| Iau | 14 | 18 | 18 | 15 | 13 | 17 | 15 | 12 | 16 | 14 | 18 | 16 | Iau |
| Gwener | 15 | 19 | 19 | 16 | 14 | 18 | 16 | 13 | 17 | 15 | 19 | 17 | Gwener |
| Sadwrn | 16 | 20 | 20 | 17 | 15 | 19 | 17 | 14 | 18 | 16 | 20 | 18 | Sadwrn |
| Sul | 17 | 21 | 21 | 18 | 16 | 20 | 18 | 15 | 19 | 17 | 21 | 19 | Sul |
| Llun | 18 | 22 | 22 | 19 | 17 | 21 | 19 | 16 | 20 | 18 | 22 | 20 | Llun |
| Mawrth | 19 | 23 | 23 | 20 | 18 | 22 | 20 | 17 | 21 | 19 | 23 | 21 | Mawrth |
| Mercher | 20 | 24 | 24 | 21 | 19 | 23 | 21 | 18 | 22 | 20 | 24 | 22 | Mercher |
| Iau | 21 | 25 | 25 | 22 | 20 | 24 | 22 | 19 | 23 | 21 | 25 | 23 | Iau |
| Gwener | 22 | 26 | 26 | 23 | 21 | 25 | 23 | 20 | 24 | 22 | 26 | 24 | Gwener |
| Sadwrn | 23 | 27 | 27 | 24 | 22 | 26 | 24 | 21 | 25 | 23 | 27 | 25 Nadolig | Sadwrn |
| Sul | 24 | 28 | 28 | 25 | 23 | 27 | 25 | 22 | 26 | 24 | 28 | 26 | Sul |
| Llun | 25 | | 29 | 26 | 24 | 28 | 26 | 23 | 27 | 25 | 29 | 27 | Llun |
| Mawrth | 26 | | 30 | 27 | 25 | 29 | 27 | 24 | 28 | 26 | 30 | 28 | Mawrth |
| Mercher | 27 | | 31 | 28 | 26 | 30 | 28 | 25 | 29 | 27 | | 29 | Mercher |
| Iau | 28 | | | 29 | 27 | | 29 | 26 | 30 | 28 | | 30 | Iau |
| Gwener | 29 | | | 30 | 28 | | 30 | 27 | | 29 | | 31 | Gwener |
| Sadwrn | 30 | | | | 29 | | 31 | 28 | | 30 | | | Sadwrn |
| Sul | 31 | | | | 30 | | | 29 | | 31 | | | Sul |
| Llun | | | | | 31 | | | 30 | | | | | Llun |
| Maw | | | | | | | | 31 | | | | | Maw |

**GWYLIAU BANC**

| | |
|---|---|
| 1 Ionawr | Dydd Calan |
| 9 Ebrill | Y Groglith |
| 12 Ebrill | Llun y Pasg |
| 3 Mai | Calan Mai |
| 31 Mai | Sulgwyn |
| 30 Awst | Gŵyl Awst |
| 27 Rhagfyr | Gŵyl y Nadolig |
| 28 Rhagfyr | Gŵyl Y Nadolig |

**TYMHORAU YSGOLION MORGANNWG GANOL**

Tymor y Gwanwyn
Dydd Mawrth, 5 Ionawr - Dydd Iau, 8 Ebrill
Hanner Tymor 22 - 24 Chwefror

Tymor yr Hâf
Dydd Mawrth, 27 Ebrill - Dydd Gwener, 23 Gorffennaf
Hanner Tymor 31 Mai - 4 Mehefin

Tymor yr Hydref
Dydd Mawrth, 7 Medi - Dydd Mercher, 22 Rhagfyr
Hanner Tymor 25 - 29 Hydref

**YR EISTEDDFODAU A'R SIOE**

| | |
|---|---|
| Mai 31 - Mehefin 5 | Eisteddfod Genedlaethol Abertawe a Lliw |
| Gorffennaf 19 - 22 | Sioe Amaethyddol Llanelwedd |
| Gorffennaf 31 - Awst 7 | Eisteddfod GenedlaetholCymru De Powys |

# *YSGOL GYNRADD GYMRAEG LLANTRISANT*

# *NADOLIG*

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | E | S | C | L | I | N | T | B | A | S | U | B |
| G | I | L | O | D | A | N | R | A | C | S | L | U |
| S | D | E | P | R | E | O | J | N | E | M | U | G |
| B | A | U | B | R | P | I | M | I | H | W | O | E |
| W | D | I | E | FF | W | L | A | D | C | E | L | I |
| M | N | S | Y | C | T | Y | L | S | O | CH | G | L |
| L | S | DD | L | FF | C | G | P | C | L | I | S | I |
| B | C | O | E | D | E | N | B | N | C | L | U | A |
| N | O | I | G | E | H | A | R | E | N | S | J | I |
| J | O | S | E | F | F | TH | DD | R | S | CH | L | D |
| T | FF | C | L | DD | CH | E | W | I | T | E | L | FF |
| N | O | I | G | E | H | R | N | A | B | A | R | A |
| S | I | O | N | C | O | R | N | M | Y | W | J | P |

**BLE MAE'R GEIRIAU?**

MAIR JOSEFF IESU
ANGYLION BUGEILIAID
SION CORN PRESEB SEREN
COEDEN CLOCH ANRHEGION
NADOLIG

Gan Bethan Rees

Nadolig yw penblwydd Iesu Grist

Anrhegion rydyn ni'n eu cael adeg y Nadolig

Dododd Mair Iesu yn y preseb

Orenau mae pobl yn rhoi mewn hosan


Losin rydw i'n cael adeg y Nadolig

Iesu Grist ddaeth i'n byd i'n dysgu ni i fod yn dda.

Gofalwch fod chi'n cofio bod y Nadolig nid yn unig am gael anrhegion.

Cennydd Mills

Helpwch Siôn Corn i gyrraedd y tŷ. Peidiwch mynd dros yr anrhegion!
gan Bethan Edwards




Y NADOLIG

Rydyn ni'n dathlu'r Nadolig ym mis Rhagfyr, y mis y cafodd Iesu ei eni. Yn ein teulu ni mae'r teulu yn dathlu'r Nadolig yn ein tŷ ni. Rydyn ni'n cael twrci a tatws a llysiau a wedyn pwdin Nadolig. Mae Nain a Taid yn dod i gael cinio efo ni ac aros am y prynhawn. Rydyn ni'n ddiolchgar am y Nadolig ac yn cofio am Iesu Grist. Mae rhai pobol sy'n llai ffodus na mi ac rydw i a fy mrawd yn trio codi arian i adael plant llai ffodus gael Nadolig eitha hapus.

Sara Jones

NADOLIG YN EIN TŶ NI

Dydw i ddim yn hoffi'r Nadolig
Mae Ger yn crio mas
Mae Dad yn gwaeddi ar dop ei lais
A'm chwaer yn troi'n reit gas.

Mae Ger yn bwrw Katie
Mae Taid yn mynd yn ddiog
Mae Nain yn llewygu wrth y bwrdd
A Mam yn llosgi'r triog.

Mae Modryb yn cwympo i gysgu
Dyw Bethan ddim moen twrci
Mae Kate a Ger yn mynd yn ddwl
Ac Owain yn gwrthod llyncu.

Morgan Williams

# 7ed GŴYL DDRAMA TAFOD ELÁI

Beirniadaeth Elisabeth Miles

Rwyf wedi cael boddhad anhygoel o fod yma am bedair noson. Mae'r safon wedi bod mor aruthrol o uchel ac roedd yn bleser pur cael bod yn rhan o'r gynulleidfa a'r brwdfrydedd sydd yn y gymuned yma. Diolch yn fawr am ofyn i mi a dwi wedi mwynhau.

Un peth sydd wedi bod yn nodweddiadol o'r ŵyl yma yw ymroddiad y pobl ifanc - mae nhw wedi gwneud y cyfan - ysgrifennu, actio, cyfarwyddo, goleu. Ac mae'r pwysau ar y beirniad i wneud tegwch a'u gwaith trylwyr gymaint yn fwy.

NOS FAWRTH

**Ysgol Gynradd Llwyncelyn**
**Y Twnel**
Cawsom gychwyniad ardderchog i'r Ŵyl ddrama. Pob un o'r plant yn cyfrannu yn frwdfrydig. Roedd o'n anhygoel fod cynifer o blant yn gallu bod ar y llwyfan ar yr un pryd a phob un ohonynt yn cyfrannu'n frwdfrydig. Fe lwyfanwyd y ddrama gerdd hon - sydd mor amserol - yn hynod o ddeheuig. Roedd pob un o'r plant yn bwrw iddi a'i holl galon. Hoffais y dillad lliwgar. Script a chaneuon ardderchog a lleisiau canu swynol dros ben.

**Cwmni Ysgol y Cymer - Ian**
Roedd y tableau ar y dechrau yn plesio. Hoffais y cymeriadau canolig ac roedd gan 'Ian' bersonoliaeth atyniadol. Felly roedd y pwynt fod ei gyfoedion yn fwy na pharod i'w helpu'n hollol gredadwy. Roedd pawb arall yn cyfrannu'n rhagorol hefyd.

Roedd y berthynas rhwng Ian a Maria yn hyfryd a'u deuawd yn ardderchog. Aeth ias i lawr fy nghefn pan ganwyd "Gad e fod".

Profwyd fod modd llwyfannu'n effeithiol heb set fel y cyfryw - defnyddiwyd iefelau'n ddeheuig i greu perfformiad hyfryd iawn.

**Cwmni'r Pentre - Noson Lawen**
Roeddwn yn pwyso a mesur atal y wobr am iddynt feiddio gosod amodau mai nhw yn unig sy'n cael cystadlu yn y gystadleuaeth 'Noson Lawen' ac felly efallai iddynt ddychryn cystadleuwyr eraill rhag cystadlu. Pwy a wyr!

Ond cawsom fwynhau a chwerthin ac fe'm swynwyd gan eu geiriau caredig iawn iawn. Roedd y ddeuawd yn anhygoel a'r ddawns ddi-sgert yn wefreiddiol! Criw amryddawn a hwyliog ac yn llwyr deilyngu'r wobr.



Tlws Noson Lawen - Cwmni'r Pentre
Cwpan y Pantomeim - Cwmni Llanhari
Tlws yr Oedolion - Cwmni 93
Tlws yr Ysgolion - Cwmni Rhydfelen

Y Cwpan am y Perfformiad sydd wedi plesio orau - Pantomeim Llanhari
Tlws Unigolyn yr Ŵyl - Leanne Hardman










**Cwmni'r Bont - "Drama Meredydd"**
Nid 'gan Fanny Edwardas' ddylai fod yn y rhaglen ond fe ddylai'r geiriau canlynol fod mewn cromfachau (gydag ymddiheuriad i'r diweddar Fanny Edwards).

I feddwl mod i wedi darllen y gwreiddiol o glawr i glawr ac er mwyn beth? Roeddwn yn disgwyl y byddent wedi ystwytho'r ddeialog rywfaint ond hollol annisgwyl oedd yr hyn a gawsom.

Dechreuais feddwl mai Les y Sgerbwd oedd y cymeriad canolog - roedd pawb yn ei gyfarch. Fel roedd y chwarae'n datblygu penderfynais ail-gategareiddio'r cyflwyniad a'i alw'n bantomeim ac fe anghofiais am Fanny Edwards wedyn a mwynhau'n fawr fel pawb arall. Roed y cymeriadau'n smala a doniol yn enwedig Robin - a sylwch chi na fentrodd yr un ohonynt roi eu henwau ar y rhaglen. Pam ys gwn i?

Ar ddiwedd y noson gyntaf yma bum yn ystyried o ddifrif a ddylai fod yna wobr arall am bar o goesau gorau'r ŵyl - Owain Llywelyn fyddai'n ennill - o drwch blewyn!

A beth am wobr am yr holl seboni o'r beirniad - fe fyddwn i'n cyflwyno cyflenwad blwyddyn o sebon Pobol y Cwm i'r llyfwyr mwya!

Nos Fawrth hyfryd cychwyn ardderchog i'r ŵyl.

NOS FERCHER
**Cwmni Glantaf A**
**"Gwarchodwr Dynion"**
Drama yw hon sy'n ein hatgoffa bob un o'n breintiau a'n cyfrifoldebau ond heb unwaith bregethu.

Fe gyflwynwyd y neges gydag angerdd disgybledig. Ond efallai bod modd tanlinellu pwynt neu neges bwysig yn ddiarwybod i'r gynulleidfa drwy amrywio amseru a chyflymdra'r mynegiant o un olygfa i'r llall.

Llongyfarchion i Sara Evans am sgript ardderchog ac am berfformiad canolog rhagorol.

Roedd y llwyfannu'n syml ond yn effeithiol yn defnyddio'r gofod a golau i gyfleu treigl amser. Ond ystyriwch bob amser y "sight-lines" fel bod pawb sy'n cyfrannu ar y pryd yn weladwy i'r holl gynulleidfa ac nid yn cael eu cuddio tu ôl i berson arall.

Roedd y ffordd roedd y merched yn dyblu fel gwragedd a phlant yn efeithiol hefyd. Hoffais yn fawr y gohebydd ifanc, presenoldeb hyfryd ar lwyfan.

**Glantaf B**
**Straeon Adrian Mole.**
Roedd y tableau agoriadol yn hynod o effeithiol. Ar amrantiad cawsom ar ddeall pa fath o gefndir oedd gan Adrian Mole - y blerwch ac anrhefn o'i gwmpas ac yntau yn y canol yn gorfod adweithio.

Hoffais y cymeriad canolog yn fawr - ei olygon a'i osgo'n ardderchog a roedd y crybwyll a'r hiwmor yno hefyd. Cafodd gefnogaeth dda gan weddill y cast ac roedd ambell em o berfformiad.

Weithiau collwyd ambell i ddiweddiad brawddeg ac o'r herwydd fe gollwyd yr ergyd eiriol.

Mae Helen Thornton i'w llongyfarch - roedd ei chyfieithiad a'i haddasiad yn ardderchog.

Lluniau:
Chwith - Cwmni'r Pentref
Dde - Cwmni'r Bont

**Ysgol Gyfun Llanhari A**
**Pantomeim**
Roedd darllen y rhaglen a gweld y dewis o enwau y cymeriadau yn cyfeirio rhywun i ddisgwyl cyflwyniad hwyliog Y brenin Ken - wel allech chi ddim disgwyl i'r Brenin Ken fod yn ddyn pwyllog doeth a chyfrifol. Ac yna'r Evil Dude - wel yn fy myw welais i erioed gymeriad ar lwyfan oedd yn fwy o ymgorfforiad o erchyllitra na E.D.

Roedd y cyflwyno o'r cymeriadau yn drawiadol a mwynheais y chwarae ar eiriau - statws/tatws - ar y dechrau - eistedd yn ôl a mwynhau oedd yr unig beth i'w wneud.

Y ddau dylwythen deg a'r fodryb ac yn wir pob un ohonynt wedi deall hanfod bod yn ddoniol - sef bod yn hollol ddifrifol yn eu portreadau o'r cymeriadau. Cyflwyno cymeriadau pendant oeddynt a ni'r gynulleidfa oedd yn elwa o hyn.

Roedd y cymeriadau cefndirol yn brysur a doniol a'u dawnsio - y patrymu felly - yn atyniadol. Ac o fewn y cast cawn y cyfarwyddwr a'r awdur. Gwych - ardderchog.

Lluniau:
Chwith - Cwmni Glantaf A
Dde - Cwmni Glantaf B





# YR WYL DDRAMA

**Cwmni 93**
**Tair Mewn Twll**

Twll sy'n gyfarwydd iawn i lawer iawn o ferched. Fe gyfleuwyd chwithdod ac ansicrwydd truenus yn dawel o'r dechrau a charedigrwydd cynhenid Rhian - yn amlwg yn adnabod cyd-ddioddefwraig ond yn graff a doeth yn ei hymdriniaeth. Ruth ar yr wyneb yn hyderus a herfeiddiol ond hithau hefyd yn anghenus ac yn chwilio am gysur yn rhywle. Fe gyflwynwyd sefyllfa ingol, unig y sawl sy'n cael ei orthrymu.

Perfformiadau grymus a seibiannau a thawelwch yn chwarae rhan effeithiol yn y cyflwyniad. Hefyd roedd eiliadau ysgafn a hwyliog a thrwy'r cyfan ymlyniad y merched i'w gilydd.

Roedd gan y dair fonolog a hoffwn i pe baent wedi peidio a phryderu am amser ar yr adegau hyn ac wedi bod yn fwy myfyrgar ac wedi arafu eu mynegiant.

NOS IAU

**Cwmni Llanhari**
**Cilwg yn Ôl**

Hoffais eu dull o grynhoi'r ddrama a chyflwyno cymeriadau ar y dechrau. Fe lwyddodd y tri i gyfleu nodweddion arbennig y tri chymeriad - nodweddion sydd yn rhaid iddynt fod yn bresennol a sydd yn achosi'r gwrthdaro parhaus. Cawsom gynnwrf cymeriad cythryblus Jimmy, tynerwch a chwrteisi cynhenid Alison ac anwyldeb Cliff. Mae'r ysfa ddinistriol yn gryf yn Jimmy. Mae o'n ymwybodol o hyn ond all o ddim ymatal a chawn y teimlad cryf fod yr holl gythrwbwl a'r tristwch yn anorfod.

Yr hyn darfodd ar gyflwyniad campus oedd ambell i lithriad geiriol gan y tri, er enghraifft "colli nghof" meddai Alison yn lle "mynd yn waligof". Ond roedd y castio yn dda a chywir ac yn wir roedd yn berfformiad campus.



Pantomeim Cwmni Llanhari

**Cwm Rhymni**
**Glywsoch chi'r Un**

Cawsom berfformiadau aeddfed iawn gan y ddau brif gymeriad a chyd-chwarae ardderchog. Y ddau yn ymwybodol fod y sefyllfa'n anobeithiol ac yn gwbwl anfoddhaol ond serch hynny'n methu ymwrthod.



Cilwg yn ôl - Cwmni Llanhari
Chwith - Cwmni 93
Dde - Cwmni Cwm Rhymni

"Ti'n twyllo pawb" ... "dw i'n twyllo neb" a'r ddau yn gwybod na fyddai'r berthynas yn bosibl oni bai eu bod yn twyllo ac yn cynnal ei gilydd yn eu twyll. Diwedd eu perthynas drwy dranc yn anorfod a llwyddodd y ddau i gyfleu tristwch y sefyllfa hon yn ardderchog.

Perfformiadau deallus ac aeddfed tu hwnt.

**Cwmni'r Fuwch Goch**
**"NOSON YN Y CLWB"**

Cychwyn trawiadol iawn a'r dair ferch a'r ddau fachgen yn cyferbynnu'n ddoniol. Roedd y paratoadau gogyfer â'r ymweliad arfaethedig yn ddigri.

Hoffais bresenoldeb bygythiol y ddau 'bouncer'. Cymeriadau doniol mewn sefyllfa wahanol a doniol a gyflwynwyd i ni.

Y teimlad ges i oedd i rannau o'r ddrama gael eu hymarfer yn drwyadl ar draul eraill ac nad oeddynt efallai wedi cael digon o ymarfer ahoni fel cyfanwaith - ambell i hicyp bach fel peteai. Ond cyflwyniad hwyliog a llawn hwyl.









**Clwb y Dwrlyn**
**Dirgelwch yr Awr Ginio.**
Dewis ardderchog o ddrama i griw talentog a hwyliog. Roedd y set yn dda h.y. roeddent wedi addasu'r llwyfan yn llwyddiannus a chawsom ein trosglwyddo i siop ddillad sidet yn syth.

Eto roeddynt wedi dethol y pobol iawn gogyfer a'r rhannau - roedd pawb yn ei morio hi ar adegau a llwyddwyd yn effeithiol iawn i gyfleu'r camddeall a'r dryswch a greodd y ddrama.

Diweddglo hapus i noson lwyddiannus arall.

NOS WENER
Oherwydd profedigaeth roedd Cwmni Cwm Ni yn methu cymeryd rhan yn yr ŵyl ar y nos Wener a mynegwyd cydymdeimlad yr ŵyl i'r sawl oedd wedi cael profedigaeth.

**Ysgol Gyfun Rhydfelen**
**Branwen**
Cyflwyniad caboledig a chyffrous. Roedd y cychwyn yn annisgwyl ac yn drawiadol - y dynion grymus yn gwneud penderfyniadau i ymestyn eu grym a chân Branwen yn gosod ei lle hi yn y trafodaethau
"Bod yn ferch mewn byd o ddynion
Teimlo eu brwydro yn diffodd fy nghan."

Canwyd hi yn swynol rhyfeddol ond hoffwn pe bai yn fwy ingol yn wirioneddol unig efallai. Hefyd ar adegau teimlais fod y cyfeiliant braidd yn drwm ac yn boddi'r lleisiau.

Roedd y perfformiadau canolog yn gryf a'r cyfan yn llifo'n ardderchog a'r canu yn effeithiol. Crynhowyd y stori'n ddeheuig iawn a defnyddiwyd synau a goleuadau yn effeithio tu hwnt. Cyflwyniad caboledig a hynod tu hwnt. Roedd perfformiadau pawb ynglŷn â'r cyflwyniad hwn yn ddeallus a disgybledig. Diweddglo campus i'r ŵyl.

Roeddwn wedi mwynhau pob cynhyrchiad yn fawr. Mae'r safon wedi bod mor eithriadol o uchel a gobeithio y byddwch yn parhau gyda'r ŵyl lwyddiannus hon.



Cwmni Rhydfelen

Chwith - Cwmni'r Fuwch Goch
Dde - Cwmni'r Dwrlyn

Diolch i'r canlynol am gynorthwyo i gynnal Gŵyl lwyddiannus - Y Cwmniau Drama - Y Beirniad: Elisabeth Miles - Yr Arlwywyr: Ysgol Feithrin Llanilltud Faerdref, Ysgol Feithrin Tonteg, Gohebwyr Lleol a Bwrdd Golygyddol Tafod Elái - Y Noddwyr: Ffilmiau Eilidir, Derwen, Cambrensis, Three Arch Press - Goleuo: Roy Davies - Lluniau: D.J. Davies - Neuadd Dowlais - Y Trefnydd: Colin Williams.

Y Gohebwyr Lleol
yn gwasanaethu'r tê.



# GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Miss K.O. Pritchard

COLLED I'R CWM
Trist oedd clywed am farwolaeth sydyn Mr Glyn Vaughan. Un o blant y Cwm oedd Glyn, a chyn symud i Fryste roedd yn athro yn Ysgol Gyfun Abercerdin. Bu'n hynod o weithgar ym myd y Ddrama a pharhaodd i gyfrannu i weithgareddau cyffelyb ym Mryste, yn enwedig y Gymdeithas Gymraeg. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu ai wraig Diddanwy. Cydymdeimlwn hefyd â nifer o drigolion a theuluoedd y Cwm a ddioddefodd brofedigaethau yn ystod yr wythnosau diweddar.

HEDD WYN
Wrth gyfeirio un noswaith yn y 'Guild' at y ffilm Gymraeg ar fywyd a gyrfa Hedd Wyn, diddorol oedd clywed un o'r aelodau yn dweud ei bod pan yn blentyn wedi mynd gyda'i Mam o Ddolgellau i Drawsfynydd. Cofiai gerdded o'r pentref i'r 'Ysgwrn' a chael gweld y gadair enwog 'Y Gadair Ddu'.

Noswaith arall wrth sôn am Emynwyr Cymru dywedodd aelod bod teulu ei gwr yn hannu o deulu Pantycelyn. Roeddynt wedi bod ym Mhantycelyn i adnewyddu'r berthynas (er yn bell) ac wedi cael croeso arbennig gan y teulu presennol. Gobeithio bod atgofion a gwybodaeth diddorol fel hyn yn cael eu hadrodd wrth eu plant.

SIOPA'R NADOLIG
Ymddengys fod gwibdeithiau i siopa yn parhau'n boblogaidd dros ben. Mae'n drist meddwl bod y math hyn o deithiau yn angenrheidiol. Oherwydd bod y mwyafrif o'r siopau lleol wedi cau, nid oes dewis gan y boblogaeth ond ceisio siopa ble mae prisiau yn llai a mwy atyniadol.

CAPEL YN LLEWYRCHU
Wrth glywed a gweld diflaniad y Capeli bychain mewn llan a thref, hyfrydwch yw cael adrodd am gynnydd yn Eglwys Moriah, Gilfach Goch. Codwyd Moriah gan y gweithwyr yn ystod streic 1921, ac y mae plant yr Eglwys yr amser honno yn parhau'n ffyddlon hyd heddiw. Yn ddiweddar mae nifer y gwrandawyr wedi cynyddu er mawr galondid i'r aelodau. Disgwylir y bydd y cynnydd yn parhau gan fod diddordeb yn yr achos i weld yn crfyhau yn yr ardal.

# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

YSGOL GYMRAEG TONYREFAIL

CHWARAEWR RYGBI
Mae Gareth Walters, 10 oed, sy'n un o ddisgyblion yr ysgol wedi chwarae rygbi yn safle rhif naw i dîm 10 oed Cwm Rhondda. Mae balchder mawr yn yr ysgol ac yn Gilfach Goch am ei lwyddiant. Mae hefyd wedi bod yn ymarfer yn gyson ers mis Medi i dîm Badminton Morgannwg Ganol a bu yn eu cynrychioli ar Tach 15ed yn Solihull gan ennill ei ddwy gêm sengl. Mab yw Gareth i Dawn Rees, fel roedd cyn priodi, ac roedd hithau yn un o ddisgyblion yr Ysgol Gymraeg ac wedyn yn Rhydfelen, ac mae erbyn hyn yn ysgrifenyddes yn Ysgol Gyfun Llanhari. Pob llwyddiant i Gareth ac i'r teulu.

CHWARAEON
Mewn Gala ym Mhwll Nofio Tonyrefail daeth tîm nofio'r ysgol yn ail allan o chwech tîm lleol, a daeth Bethan Alliant yn gyntaf yn y râs dull broga. Llongyfarchiadau.

Enillodd y tîm pel rwyd o 6 - 0 yn erbyn Ysgol Gynradd Tonyrefail.

FFAIR NADOLIG
Ar ddydd Sadwrn, 21ain o Dachwedd cynhaliwyd Ffair Nadolig yn yr ysgol a bu yn llwyddiant ysgubol er gwaethaf y tywydd garw. Bu'r rhieni a'r athrawon yn brysur yn paratoi ar ei chyfer a chafwyd cwmni Siôn Corn yno hefyd.

CYNORTHWYO CRONFA'R YSGOL
Gyda balchder mawr mae y 'Guild' yn cyhoeddi bod eu hymdrech ar ran yr ysgol leol wedi bod yn lwyddiant mawr. Er garwed oedd y noswaith roedd y neuadd yn orlawn a chyhoeddwyd fod y swm o £1106 wedi ei dderbyn a bod mwy eto o arian i ddod i mewn. Gwnaed ymdrech arbennig gan yr aelodau y flwyddyn hon er sicrhau digon o adnoddau i ddisgyblion yr ysgol, a chynnal safon addysg yn y cylch.

Nos Iau cafwyd hwyl arbennig yng nghymdeithas yr Henoed pan gynhaliwyd cyngerdd dan ofal 'Y Gamblers', sef grŵp o gantorion gyda Gitârs. Roedd yno ganu a chlapio a phawb yn mwynhau.

PLANT MEWN ANGEN
Llwyddiant mawr hefyd bu yr ymgyrch Plant Mewn Angen. Hyfryd oedd gweld y plant a'r athrawon wedi gwisgo lan i'r achlysur. Pinacl y dydd oedd gweld Mr Irwin Wilcox o dan law Mrs Jean Williams yn cael ei farf wedi ei eillio a'i fwstas yn arbennig wedi ei gymryd i ffwrdd am y tro cyntaf ers yr amser pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Codwyd swm sylweddol o arian i'r achos pwysig hwn.

Y NADOLIG
Cynhelir Gwasanaeth Carolau yng Nghapel y Ton ar y 9fed o Ragfyr. Aeth criw o ddisgyblion yr ysgol i weld pantomeim ym Maesteg ar y 26ain o Dachwedd.

MARWOLAETH
Ar 30ain o Hydref bu farw un o'n haelodau yng Nhapel y Ton sef Mrs Margaret Barnett, Fferm Rhiwfelin Fawr, Llantrisant yn 86 oed. Roedd Mrs Barnett yn adnabyddus i ardal eang iawn yng nghylch Llantrisant, Tonyrefail a'r Beddau yn enwedig ac yn perthyn i deulu amaethyddol ag yn un o deulu mawr. Bu farw ei merch, Jean rai blynyddoedd yn ôl ac mae'r mab, Richard yn ffermio Rhiwfelin Fawr. Claddwyd ei gweddillion ar y 5ed o Dachwedd ym mynwent y Trane, Tonyrefail ar ôl gwasanaeth yng Nghapel y Ton pryd y gwasanaethwyd gan y Parch D. Griffiths, Tonysguboriau a'r Parch Ieuan J. Owen cyn-weinidog a bugail Capel y Ton ac sydd hefyd yn ffrind agos i'r teulu. Daeth tyrfa luosog ynghyd i dalu'r gymwynas ola iddi yn berthnasau ac yn ffrindiau. Coffadwriaeth dda amdani a chydymdeimlad dwys â'r teulu i gyd.

PRIODAS
Ar Sadwrn, 31ain o Hydref yng Nghapel y Ton priodwyd Miss Susan Howells, merch Mr a Mrs D. Howells, Siop yr Olew, Tonyrefail a Mr Andrew Gowan, Heol y Gilfach, Tonyrefail. Gwasanaethwyd gan y Parch Ieuan J. Owen a'r Parch Earl Hasty, Ficer Dewi Sant, Tonyrefail. Pob bendith iddynt.

TEITHWYR
Hyfryd yw gweld y gwibdeithwyr i Wlad Canaan yn ôl gartref wedi mwynhau ond wedi blino'n fawr ar ôl taith cynhwysfawr.



Mr Irwin Wilcox hanner ffordd drwy eillio ei farf ar gyfer ymgyrch Plant mewn Angen Ysgol Gymraeg Tonyrefail.

## MABSANT



Dros gyfnod dechrau mis Tachwedd bu'r grŵp gwerin Mabsant o Lantrisant ar daith lwyddiannus i'r Alban gan deithio i Inverness, ac ynysoedd Skye a Lewes. Buont yn canu yng nghyngerdd dathlu dengmlwyddiant 'Comhairle Nan Sgoiltean Araich', sef Mudiad Ysgolion Meithrin yr Alban. Yna ar ddiwedd mis Tachwedd cychwynodd y grŵp ar daith 'Mabsanta' yng nghwmni Eiry Palfrey gan gyflwyno noson o hwyl a hiraeth Nadoligaidd.

# YR EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Loreen Williams

CYNLLUN GWARCHOD Y GYMDOGAETH

Ar y 29ain o Hydref cafwyd cyfarfod yn Neuadd y Pentref i sefydlu cynllun i warchod y pentref, sef "Neighbourhood Watch". Roedd y pentrefwyr a fynychodd y cyfarfod yn unfryd fod angen sefydlu cangen o'r mudiad i warchod y pentref, yn enwedig gan fod amryw o bobl wedi colli setiau radio o'u ceir yn ddiweddar, ac mae ambell i gar wedi diflannu hefyd yn ystod oriau mân y bore. Rhannwyd y pentref yn chwe ardal a bydd cynrychiolwyr o'r ardaloedd hynny yn ffurfio pwyllgor a fydd yn cyfarfod yn gyson i adolygu'r sefyllfa yn y pentref.

ACTORES IFANC

Mae Ria Pritchard Copley, Heol Iscoed, wedi cael cyfle i actio mewn pennod o'r gyfres "Ysbyty Glan Hafren". Mae eisioes wedi recordio, a bydd yn ymddangos ar y sgrîn ym mis Ionawr. Cofiwch wylio!

YSBYTY

Mae'n braf deall fod tad Mrs Liz West, Nant y Felin, yn gwella ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Rhydlafar. Mae'n aros gyda'r teulu yn Nant y Felin ar hyn o bryd.

TREFNIADAU NADOLIG Y TABERNACL
YR YSGOL SUL

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul ar Ddydd Sul, Rhagfyr 15ed am 10.30 a.m. a bydd parti'r Ysgol Sul brynhawn Gwener y 18fed o Ragfyr rhwng 4.30 p.m. a 6.30 p.m. yn Neuadd y Pentref.


SIOP BARA
Y PENTREF

*Heol St Illtyd,*
*Pentre'r Eglwys*

**Bara a chacennau wedi eu pobi yn y siop mewn ffwrn draddodiadol.**

Mrs Janet Evans

0443 202013

**Trefnir Arlwyo**


TEULU TWM

Aelodau Teulu Twm fydd yn cynnal y Gwasanaeth fore Sul, Rhagfyr 20 fed am 10.30 a.m. ac fe fydd eu parti ar Nos Iau, Rhagfyr 17ed am 7 o'r gloch yn neuadd y Pentref. Mae Gill Rees a Carole Willis, arweinyddion Teulu Twm, yn trefnu Taith Ddirgel i'r aelodau ar Ddydd Sadwrn, Rhagfyr 12ed.

TEIDIAU TWM

Mae aelodau Teidiau Twm yn torri tir newydd eleni ac yn dathlu Gŵyl y Geni ar y fferm yn Llancarfan yng nghwmni'r anifeiliaid. Byddant yn cyflwyno stori'r geni ar glos y fferm ac allan ar y caeau gyda'r "bugeiliaid" a'u praidd o ddefaid.

Bydd gwaith cerdded o gwmpas ar gyfer y gwahanol olygfeydd ac fe fydd cyfle i bawb ymuno â'r band i ganu carolau wrth symud o fan i fan. Gofynnir i bawb ddod â dillad cynnes / dillad glaw, pâr o welingtons a "torch".

Bydd croeso cynnes i aelodau'r Tabernacl i gyd a'u ffrindiau ddod i weld y cynhyrchiad syfrdanol yma a fydd yn dechrau am 4.30 p.m. brynhawn Sul, Rhagfyr 20fed. Pris mynediad i oedolion fydd £2.00 a £1.00 i blant. Bydd yr elw'n cael ei drosglwyddo at waith gyda phlant dan anfantais ar y fferm sef Fferm Ymddiriedolaeth Amelia yn Llancarfan. Gellir sicrhau tocynnau oddi wrth aelodau Teidiau Twm neu oddi wrth Mr Geraint Rees (rhif ffôn: 0443 205944).

TAITH NODDEDIG

Ar ôl dod dros y profiad o gyd-actio gyda'r anifeiliad bydd y criw gweithgar yma'n paratoi ar gyfer rhagor o waith dyngarol. Ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 22 byddant yn dechrau ar Daith Gerdded Noddedig o Fethlehem (Dyfed!) gan obeithio cyrraedd Y Tabernacl, Efail Isaf ar Noswyl y Nadolig. Eu nôd eleni yw casglu £1500 ar gyfer Cymorth Cristnogol.

GWASANAETH NOSWYL Y NADOLIG

Cynhelir y Gwasanaeth dwyieithog arferol ar Noswyl y Nadolig yn y capel am 11.00 p.m. Dyma gyfle i aelodau'r eglwys i wahodd eu cymdogion, teulu a ffrindiau i ddechrau'r Ŵyl yn un teulu cytun.

Croeso cynnes i bawb ymuno yng ngweithgareddau'r Nadolig gydag aelodau'r Tabernacl.

# NOSON GYFLAITH

Roedd cynnal 'Noson Gyflaith' gynt yn arfer draddodiadol mewn rhannau o ogledd Cymru i ddathlu'r Nadolig neu'r Flwyddyn Newydd. Yn eu tro byddai teuluoedd yn gwahodd eu ffrindiau i'w cartrefi fin nos. Paratoent swper mawr ar eu cyfer, yn cynnwys gŵydd a phwdin Nadolig, fel rheol, ac yna byddai'r cwmni'n ymuno mewn chwaraeon, yn adrodd straeon ac yn tynnu cyflaith.

Ar ôl berwi'r defnyddiau angenrheidiol i ryw ansawdd arbennig, tywelltid y cyflaith allan ar lechen neu garreg fawr wedi'i hiro ag ymenyn. Byddid yn glanhau carreg yr aelwyd a'i hiro ar gyfer yr achlysur weithiau. Yna byddai pob aelod o'r cwmni yn iro'i ddwylo ag ymenyn ac yn cymryd darn o'r cyflaith i'w dynnu tra byddai'n gynnes. Roedd hon yn grefft arbennig ac anelid at dynnu'r cyflaith hyd nes y deuai'n rhaffau melyngoch. Byddai'r dibrofiad yn edmygu medrusrwydd y profiadol ond roedd aflwyddiant y dibrofiad yn destun hwyl i bawb. Roedd cyflaith yn cael ei wneud mewn rhannau o dde Cymru hefyd, yn enwedig yn y cymoedd glo. Hyd y gwyddom ni chysylltid ef ag unrhyw ŵyl arbennig yno, ond roedd yn arfer gan wragedd i'w werthu o'u cartrefi neu yn y farchnad leol.

Roedd 'dant' a 'ffani' ymhlith yr enwau a roid arno, ac weithiau rhoid enw'r gwneuthurwyr arno, er enghraifft, 'losin Magws' neu 'losin Ansin bach'. Gwerthid ef yn ddarnau bach, tua dwy owns am geiniog.

TAFFI a FFANI

pwys o siwgr coch, meddal
llond cwpan mawr o ddŵr oer
llond dwy lwy de o finegr
talp o ymenyn
olew mintys poethion

Rhoi'r defnydd (ac eithrio'r olew) mewn sosban haearn bwrw, eu troi'n gyson, a'u berwi'n ofalus am ryw bymtheng munud.

Codi ychydig o'r cymysgedd i lond cwpan o ddŵr oer. Os bydd yn caledu ar unwaith gan ddisgyn i waelod y cwpan bydd y cyfan wedi berwi i'r ansawdd priodol.

Yna arllwys y rhan fwyaf ohono allan ar fwrdd llechen neu faen wedi'i iro'n dda ag ymenyn, gan gadw rhyw gymaint ohono'n weddill yn y sosban mewn lle cynnes. (Dylid cadw hwn rhag caledu.)

Iro'r dwylo ag ymenyn a thynnu'r hyn sydd ar y maen cyn gynted ag y gall dwylo oddef ei wres. Ychwanegu ychydig o'r olew ato wrth ei dynnu a pharhau i'w dynnu nes y daw i'r un lliw â hufen.

Ei osod yn stribedi hir, gwastad (tua modfedd o led) ar y bwrdd, ac arllwys y taffi brown, sydd yn weddill yn y sosban, yn llinell denau ar ganol pob stribed. Torri'r stribedi'n ddarnau bychain cyn iddynt galedu.

Gwaelod y Garth. Morgannwg.


# Y MESEIA
## (HANDEL)

**Côr Godre'r Garth**

*Arweinydd*
***Wil Morus Jones***
*gyda*

| | |
|---|---|
| Odette Jones | Soprano |
| Llinos Swain | Alto |
| Roland George | Tenor |
| Iwan Wyn Parry | Bas |
| Jeffrey Howard | Organ |

*Capel Bethania*
*Tonypandy*
**7.00 p.m. Nos Sadwrn**
**19 Rhagfyr 1992**
**Tocynnau: £4**
(£2 i blant a henoed)
Tuag at:
Ysgolion Cymraeg y Rhondda




# Y CREU A'R DARFOD

Hadau bodolaeth yn chwyrlio mewn gwagle heb le i fynd. Hadau yn disgyn blith draphlith ar draws ei gilydd. Cael eu chwydu o'r cwdyn i dir diffaith i guddio mewn cilfachau, i farw'n ddiwerth, i ddarfod yn hen a diffrwyth a rhai yn wyn ifanc ffrwythlon yn beryglus o fywiog. Gorweddant yn swp clustogaidd yn llonydd i aros am eu creu.

Daeth bore a ffresni'r dydd a chyffro'r wawr i wahodd creu. Daeth cyrff awchus dieithraid a thaflu'i hunan ar y gwynder esmwyth. Casglant yr hadau - glynu, gwthio - "A - W" dyrnu, dyrnu, bloedd o bleser. Pwnio, Pwnio - bysedd a dwylo yn chwilio, yn crafu, crafangio - coesau a thraed - cyrff yn cwrdd.

Tuchan -------- ebwch ------- s-g-r-e-ch a'r hadau'n glynu, glynu. Chwys yn llifo a'r blinder yn braf a bodlon. Wedi egwyl - nôl at y weithred a'r cyrff yn ail gydio yn ffyrnicach.

Y dwylo'n ymestyn a'r bysedd yn cyrraedd i fyny, i lawr, ar draws, tu ol a gwthio, gwthio i'r gwynder morwynol. Taflu'r menyg a'r cnawd yn cyffwrdd yr oerni yn hefreiddiol. Bwrw, bwrw

pwndio, pwndio,
llepian llepian
slapio a splashio

a chwerthin yn uchel.

"Ha ------a" y weithred ar ben - y wefr wedi darfod - yr hwyl digariad wedi colli' flas a'r gweithredwr yn troi ei gefn.

Ar ôl, mae corff, gwyn llonydd, gwen lydan ddwl wedi rhewi a dau lygad pwl dideimlad heb boen, heb hapusrwydd. Yno bu yn dawel am oriau, yn noeth - a'r oerni yn gwasgu yn crisialu'r gwynder a'r un wen yn dal i wenu yn atgof o'r chwys a'r creu. Yno bu yn aros yn unig drwy'r nos, yn wirion unig yn y tywyllwch - mewn cae.

Daeth bore a golau a gobaith. Daeth bys hir main, bys hir cynnes, bys hir miniog i ddatod clymau. Daeth bysedd - ugeiniau o fysedd a'r corff yn ymlacio a dechrau ymryddhau yn llipa llipa.

Saethu, saethu - ewinedd meinion yn gwahanu'r gwynder a'r miloedd hadau gwynion yn llifo, disgyn a dadmer yn ddim.

Y bysedd yn tynnu'n ol i'r wain fawr felen a'r cae yn wag. Dim ond y wên ddwl a'r ddau lygad pwl ar ôl.

Yr erthyliad yn naturiol a'r dyn eira wedi marw.






# TRIP I LUNDAIN

Yn dilyn trafodaethau ymysg staff yr Urdd, dechreuwyd cynllun i gynnig gwell gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc 15 i 19 mlwydd oed. Fel rhan o'r prosiect, trefnais drip ar nos Wener, Tachwedd 20fed i weld sioe newydd Bobby Davro yn cael ei recordio. Gwahoddwyd disgyblion ysgolion cyfun Rhydfelen a Llanhari ar y daith ac fe lwyddon ni i lenwi bws. Wedi cyrraedd Canolfan Teledu y BBC awr yn hwyr (ar ôl ymladd trwy draffig Llundain, gweld Castell Windsor yn llosgi ... na nid ein bai ni oedd e...) aethom ar goll yn y Ganolfan ymysg hwyl a sbri 'Plant Mewn Angen' (mae'n rhaid cyfaddef imi gael fy nhemptio i werthu gwasanaeth pedwardeg o ddisgyblion Cymraeg i Terry Wogan ar un pwynt...). Yna colli Dyfrig a'i fws, darganfod rhai o ddisgyblion Llanhari mewn 'conference suite' gyda Frank Bruno a John Leslie o Blue Peter - oes mae tystiolaeth gennym - ffoniwch Alun Battrick ar Llanhari 237824, ffeindio Dyfrig minus bws, fe lwyddom ni i weld y dyn ei hun wrth ei waith (Bobby Davro nid Dyfrig). Noson unigryw, bythgofiadwy oedd nos Wener diwethaf ac er bod fy ngwallt nawr yn hollol wyn gan ofid erbyn hyn a minnau mor ifanc (ish) rwy'n sicrhau bod y cyfan wedi bod yn werth chweil (rwy'n credu...!)

Cynlluniau eraill sydd ar y gweill yw, Dawns Santes Dwynwen, Rhyfel Paent Mawreddog rhwng Llanhari a Rhydfelen, Cystadleuaeth Grwpiau Pop, Noson Lofruddio, Penwythnos yn Nolygaer i ddosbarth 6, Gwyliau/Cwrs i ddatblygu sgiliau i ddosbarth 5 yn Nant Gwrtheyrn a Glan Llyn, a llawer mwy. (Sylwer nad oes gan Bobby Davro unrhywbeth i wneud gyda un o'r gweithgareddau uchod arwahan i fod yn darged yn y rhyfel paent!!!).

Sara Lewis
Swyddog Datblygu yr Urdd

# GIG Y MIWNI

Fel rhan o weithgareddau Cymoedd Byw cynhaliwyd Gig Roc yn y Miwni ar ddechrau mis Tachwedd. Ymysg y grwpiau roedd band Almaenig "Saarbruck Libre" (llun chwith) yn canu amrywiaeth cerddorol a ieithyddol diddorol. Y grwpiau lleol oedd Enaid Coll (llun dde), Majalenic a Inocent Spasm. I goi'r noson cafwyd perfformiad egniol arferol gan y band o Aberteifi, Dom.

# YSGOL ROC

Mae'r Ysgol Roc ar gyfer disgyblion hŷn Morgannwg Ganol a gynhaliwyd yn y Miwni ar ddydd Gwener, 6ed Tachwedd yn achlysur blynyddol i aelodau grwpiau ifanc yr ardal. Eleni daeth Myfyr Isaac, Graham Land, Dafydd Wyn a Geraint Cynan i feithrin sêr roc y dyfodol.





*Menter a Busnes*

## SHAMPÊN AM YR ENW GORAU

Yn y misoedd nesaf mae'n fwriad sefydlu rhwydwaith o bobl fusnes Cymraeg ardal Caerdydd a'r cylch. Er mwyn lansio'r rhwydwaith yn llwyddiannus ar ddechrau mis Mawrth mae Menter a Busnes yn cynnal cystadleuaeth i gael syniadau am enw i'r rhwydwaith pobl fusnes.

Potel o Shampên yw'r wobr â gynigir am yr enw mwyaf addas ar gyfer y grŵp busnes Cymraeg newydd. Felly ewch ati dros y Nadolig i fathu enwau a'u danfon erbyn 31 Rhagfyr 1992 i:

Sian M. Johnston
Menter a Busnes
Uned 1 Cwrt y Parc
Parc Ty Glas
Llanisien
Caerdydd CF4 5GH






Oeddech chi'n rhan o'r garfan a aeth o Daf Elái i gefnogi'r Rali Dros Ddeddf Iaith Gadarn ar 31 Hydref? Mae'r ymgyrch am ddeddf iaith gynhwysfawr gref yn parhau. Cofiwch ddefnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur posib yn y flwyddyn newydd.

## SNICHOD Y TAFOD

"SNICHOD Y TAFOD"– ar gyfer ein darllenwyr mwy deallus, pôs geiriol ym mhob rhifyn. Gwobr fawr bob mis!!

**Atebion i:** Yr Hafod
1 Llys Gwynno
Creigiau.




Atebion **Snichod** mis Tachwedd.

1. MA'S OLE
2. DIM TROI NOL
3. CROEN DENAU
4. FFROEN UCHEL
5. OLION TRAED

Enillydd **Wyddor Chi** Mis Tachwedd

Catrin Heledd,
3 Penffordd, Pentyrch.

Gair naw llythyren - BARGEINIO

## WYDDOR CHI?

Nifer fwyaf o eiriau tair llythyren a throsodd gan gynnwys o leiaf un gair naw llythyren.

* Rhaid defnyddio'r llythyren ganol ymhob gair.
* Dim geiriau Saesneg.
* Dim geiriau wedi eu treiglo.

**Geiriau i:** Yr Hafod
1 Llys Gwynno
Creigiau.

| | | |
|---|---|---|
| S | M | O |
| I | T | R |
| E | I | L |